# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Llys Gwenffrwd**

**Cartref Preswyl Llys Gwenffrwd**
**Stryd Brynford**
**Treffynnon**
**CH8 7RA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

31/08/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Llys Gwenffrwd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir. | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cyngor Sir y Fflint |
| Lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 13/01/2020 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n gartrefol ac yn groesawgar. Mae digonedd o le i eistedd ac ymlacio. Mae'r awyrgylch yn dawel ac yn gartrefol, ac mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan staff sydd wedi cael eu hyfforddi'n dda sy'n eu hadnabod yn dda. Caiff y bobl eu hannog i gyfrannu eu barn at y gwaith o redeg y gwasanaeth, a chaiff eu safbwyntiau eu cymryd o ddifrif. Mae ystod o weithgareddau ar gael, a chaiff y rhain eu personoli i ddewisiadau unigol y bobl. Caiff y staff gofal eu cefnogi gan dîm rheoli sy'n hawdd mynd atynt ac maent yn ymateb i anghenion y bobl.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu penderfyniadau o ddydd i ddydd.  Gallant wneud dewisiadau am sut a ble i dreulio eu hamser.  Yn ystod ein hymweliad gwelsom y bobl yn sgwrsio ac yn cymdeithasu â'i gilydd.  Daeth un person â'i goffi ei hun i'r lolfa i wneud diod poeth.  Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau'r bwyd a bod "*plenty of it"*.  Mae dau ddewis ar y fwydlen yn ddyddiol a gellir gofyn am opsiynau eraill os nad yw'r bobl yn hoffi'r dewisiadau.  Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael eu cefnogi i wneud yr hyn maent eisiau ei wneud.  Mae ganddynt gynlluniau gweithgaredd wedi'u personoli a gwelsom ffotograffau o'r bobl yn mwynhau gweithgareddau a oedd yn gweddu eu diddordebau.  Roedd lluniau o'r bobl yn garddio ac yn casglu eu cynnyrch eu hunain.  Gall y bobl gyfrannu eu syniadau a'u hadborth yn y cyfarfodydd preswylwyr, a gwelsom ffurflenni awgrymu roeddent wedi eu cwblhau cyn y cyfarfodydd.  Mae'r tîm rheoli yn ystyried unrhyw awgrymiadau; er enghraifft, gwelsom rai prydau ychwanegol ar y fwydlen pwdin, ac mae noson cyri yn cael ei threfnu, ar ôl cael yr awgrym gan y bobl sy'n byw yn y cartref.  Caiff preswylwyr eu hannog i gyfrannu at y cartref mewn ffyrdd eraill, megis cystadleuaeth blodyn yr haul yn yr haf, a dewisodd y bobl 'gerdd y mis' a oedd yn cael ei harddangos yn y cartref.

Caiff y bobl eu cefnogi i wneud eu penderfyniadau eu hunain.  Mae'r staff gofalyn helpu i ddatrys unrhyw anawsterau a allai godi drwy nodi'r canlyniadau y mae'r bobl am eu cyflawni.  Gwelsom enghreifftiau o ganfod datrysiadau llwyddiannus, a gafodd effaith gadarnhaol ar lesiant yr unigolion. Hefyd cawsom adborth cadarnhaol gan y gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymweld y gwnaethom siarad â nhw.  Dywedodd un gweithiwr proffesiynol oedd yn ymweld â'r gwasanaeth bod y staff yn canolbwyntio ar lesiant y bobl ac y byddent yn fodlon i'w perthynas eu hunain fyw yno.

Gall y bobl gael gwasanaeth yn Gymraeg os y dymunant.  Yn ystod ein hymweliad, clywsom bobl yn cyfathrebu â'r staff yn Gymraeg.  Roedd pob aelod o'r staff yn cael cynnig hyfforddiant Cymraeg ac roedd rhai aelodau o'r staff yn rhugl yn Gymraeg.  Mae arwyddion dwyieithog i'w cael ymhob rhan o'r cartref.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso.  Gwelsom fod y staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu a dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus i roi gwybod i'r tîm rheoli os bydd ganddynt bryderon am lesiant unigolyn.  Gwelsom fod y bobl yn gallu cael gafael ar eiriolwr os bydd angen cymorth arnynt i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.

## Gofal a Chymorth

Mae'r staff gofal yn sicrhau bod gan y bobl sy'n byw yn Llys Gwenffrwd gynlluniau personol trylwyr a manwl sy'n canolbwyntio ar eu dymuniadau, eu teimladau a'u credoau. Gwelsom fod cynlluniau personol yn canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer y bobl a sut y gellir eu cyflawni. Mae'r cynlluniau yn ystyried unrhyw risgiau cysylltiedig a sut y gellir rheoli'r rhain er mwyn darparu'r cymorth sydd ei angen. Mae'r staff yn adolygu'r cynlluniau yn rheolaidd ac yn eu rheoli ac yna'n archwilio'r cynlluniau er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn berthnasol. Rhoddodd y cynlluniau personol a welsom ymdeimlad gwirioneddol o bwy yw'r person i ni. Mae'r gwasanaeth wedi cael gwobr am eu cynlluniau personol o ran darparu cymorth unigol i'r bobl.

Mae'r bobl yn derbyn gofal a chymorth o safon dda sy'n diwallu eu hanghenion. Gwelsom achosion o ryngweithio cadarnhaol rhwng y staff a'r bobl drwy gydol ein hymweliad. Roedd y staff yn garedig ac yn talu sylw i'r bobl, ac aethpwyd i'r afael ag unrhyw anghenion mewn modd amserol a sensitif. Cadarnhaodd y bobl wrthym fod y staff gofal yn gefnogol ac yn dod atynt yn brydlon os byddai angen unrhyw gymorth arnynt.

Caiff y bobl eu cefnogi i wneud defnydd o'r gofal iechyd sydd ei angen arnynt. Ar ddiwrnod ein harolygiad, gwelsom sawl gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn ymweld â'r gwasanaeth. Gwelsom gofnodion o apwyntiadau iechyd ac atgyfeiriadau at wasanaethau iechyd yn cael eu gwneud yn briodol. Dywedodd y gweithwyr iechyd proffesiynol wrthym fod y staff yn cyfathrebu'n rhagweithiol â nhw. Dywedodd un gweithiwr iechyd proffesiynol wrthym y dilynir ei cyngor i'r lythyren.

Mae'r staff gofal yn dilyn arferion hylendid diogel. Gwelsom fod pob rhan o'r gwasanaeth yn lân ac yn daclus. Cafodd y gwasanaeth sgôr hylendid bwyd o bump yn ddiweddar, sef y radd uchaf bosibl. Mae digon o gyfarpar diogelu personol (PPE) yn y cartref i sicrhau bod systemau atal a rheoli heintiau da ar waith.

Mae systemau da ar waith yn y gwasanaeth ar gyfer sicrhau y caiff meddyginiaeth y bobl ei rhoi yn ddiogel. Gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel a bod y systemau cadw cofnodion yn drylwyr. Mae'r staff gofal yn sicrhau y caiff y broses gwneud penderfyniadau ei dilyn pan fydd angen meddyginiaeth gudd ar y bobl. Gwelsom gofnodion trylwyr pan gaiff meddyginiaeth gudd ei rhoi. Pan fo'n bosibl, caiff y bobl gynnig rheoli meddyginiaeth eu hunain, ac mae systemau ar waith i gefnogi hyn, gan helpu'r bobl i gynnal rhywfaint o annibyniaeth lle y bo'n briodol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n gartrefol, yn gyfforddus ac sydd â chyfleusterau da i ddiwallu eu hanghenion. Gwelsom fod digonedd o le i eistedd, ac mae'r mannau eistedd wedi eu trefnu i annog y bobl i gymdeithasu. Mae gan y brif lolfa gyfleusterau i'r bobl wneud eu diodydd eu hunain os dymunant. Mae lolfeydd bach ar y llawr canol a'r llawr uchaf, ac ardal eistedd gyda pheiriant coffi yn yr ystafell fwyta. Gall y bobl ddefnyddio'r rhain fel mannau tawel, neu ardaloedd cyfarfod preifat â'u hymwelwyr os dymunant. Yn y brif lolfa mae siop dros dro lle gall y bobl brynu byrbrydau a chynnyrch ymolchi. Mae hefyd yn troi'n far i'r bobl ei fwynhau gyda'r nos, ac ar achlysuron arbennig. Disgrifiodd un aelod o'r staff y gwasanaeth fel "*home from home*".

Gall y bobl ddefnyddio pob rhan o'r cartref gyda chanllawiau cydio, rampiau a lifftiau. Mae heulfan mawr sy'n cynnig lle i gynnal gweithgareddau, neu i bobl eistedd yn dawel gyda golygfa o'r ardd. Mae'r ardd yn groesawgar ac mae ynddi ddodrefn sydd wedi'u paentio mewn lliwiau llachar a hwyliog. Mae digonedd o le i eistedd yn yr awyr agored, gan gynnwys ardaloedd cysgodol ar ddiwrnodau heulog.

Roedd yr ystafelloedd a welsom wedi'u personoli ac yn gartrefol. Cyfeiriodd un person at eu hystafell fel *"beautiful"*. Mae gan bob ystafell wely ffôn er mwyn cysylltu llinell dir breifat a theledu fel mater o drefn. Mae gan y gwasanaeth ardal gyda phedair ystafell ar gyfer ailallogi neu ar gyfer arosiadau byr. Gall y bobl sy'n aros yn yr uned ail-alluogi ddefnyddio cegin hygyrch i baratoi eu prydau eu hunain, gan hyrwyddo a chefnogi eu hannibyniaeth.

Mae trefniadau da i nodi unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch.. Gwelsom dystysgrifau nwy a thrydan cyfredol a thystiolaeth o wiriadau legionella. Cymerir camau unioni yn brydlon pan gaiff materion eu nodi, Mae'r tîm rheoli yn sicrhau bod y staff wedi cael hyfforddiant ar weithdrefnau diogelwch tân, ac yn cwblhau ymarferion tân gyda'r staff gofal fel eu bod yn sicr bod y staff yn gwybod sut i ymateb pe byddai tân.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith yn y gwasanaeth.  Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn darparu cymorth i dîm rheoli'r cartref. Gwelsom fod yr Unigolyn Cyfrifol wedi bod yn ymatebol wrth fynychu'r cartref i gefnogi'r tîm rheoli pan oedd angen. Mae wedi cwblhau ymweliadau â phwyslais penodol ar themâu penodol er mwyn sicrhau y caiff meysydd megis diogelwch tân eu harchwilio'n fanwl. Mae'r adroddiadau ar ansawdd y gofal yn dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn gofyn i'r bobl a'r staff am eu barn, yn archwilio'r safle a'r cynlluniau personol ar gyfer y bobl, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.  Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau.  Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y rhain i'w cefnogi yn eu rôl.

Caiff y bobl eu cefnogi gan wasanaeth sy'n darparu niferoedd digonol o staff.  Mae'r tîm rheoli yn gwerthfawrogi eu tîm o staff ac yn sicrhau y cânt eu cefnogi'n dda a'u bod yn gymwys ar gyfer eu rôl.  Mae'r cymwyseddau meddyginiaeth yn drylwyr, gan sicrhau bod y staff yn wybodus ac yn defnyddio arferion diogel wrth roi meddyginiaeth. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y gallant ofyn am hyfforddiant ychwanegol mewn meysydd sydd o ddiddordeb iddynt ac maent wedi cael eu hannog i ddatblygu sgiliau newydd. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym ei fod wedi cael ei gefnogi gan y tîm rheoli i newid ei rôl ac roedd wir yn mwynhau ei swydd newydd.  Rhoddodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw adborth cadarnhaol am y tîm rheoli, gan ddweud eu bod yn hawdd mynd atynt. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gweithio mewn tîm arbennig. Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd lle gall y staff gyfrannu eu barn. Darperir blwch awgrymiadau er mwyn i'r staff gyfrannu'n ddienw os dymunant.  Mae'r staff yn amlwg yn hapus yn eu gwaith, sydd yn ei dro yn fantais i'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth.

Mae goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol yn sicrhau y gwneir gwelliannau a buddsoddiadau er budd y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth.  Mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ar y cyfan.  Ar ddiwrnod ein harolygiad, gwelsom fod gan un ystafell garped newydd wedi'i osod a rhoddwyd gwybod i ni fod y teledu yn ystafelloedd y bobl yn y broses o gael eu huwchraddio i setiau teledu clyfar.  Mae'r buddsoddiad yn sicrhau bod yr ystafelloedd yn cael eu cynnal a'u cadw i safon dda, a bod gan y bobl le cyfforddus i fyw ynddo sy'n diwallu eu hanghenion.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 24/10/2023